

Taclo ymwrthedd llyngyr mewn stoc ifanc ar ffermydd Ilaeth

Mae fferm Ilaeth yng Ngheredigion yn adolygu ei phrotocolau trin llyngyr ar gyfer ei heffrod cyfnewid ar ôl i brosiect ymchwil yn edrych ar reoli parasitiaid adnabod ymwrthedd cynnar i driniaeth llyngyr clir.

Mae'r teulu Jenkins, sy'n godro buches o 400 o wartheg Friesian Seland Newydd ar Fferm Pentrefelin, Talsarn, yn gaeafu 210 o heffrod R1 ac R2 ar dir pori gohiriedig, ac mae'r system hon yn cynyddu pa mor agored y mae'r fuches i llyngyr crwn gan ei fod yn cyfyngu ar y cyfleoedd ar gyfer tir pori glân yn y gwanwyn.

Roedd y fferm yn rhoi triniaeth llyngyr i'r holl stoc ifanc, ond roeddent yn pryderu y byddai hynny'n arwain at ymwrthedd, felly fe wnaethon nhw ddechrau gweithio ar brosiect a ariennir gan y rhaglen Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) i edrych ar ffyrdd i wella'r diagnosis a thriniaeth llyngyr mewn gwartheg.

Bydd y prosiect yn rhedeg dros gyfnod o dair blynedd ac mae'n cynnwys dwy fferm Ilaeth arall yn yr un rhanbarth.

Ar fferm Pentrefelin, profwyd dau fath o driniaeth llyngyr ar 15 o loi - benzimidazole trwy'r geg, triniaeth llyngyr gwyn, ac ivermectin wedi'i chwistrellu, sef triniaeth llyngyr clir; cafodd cyfrifon wyau ysgarthol eu cofnodi cyn ac ar ôl y driniaeth.

Cynhaliwyd profion ymwrthedd gan ddefnyddio Profion Lleihad mewn Cyfrifon Wyau Ysgarthol (FECRT) gan filfeddygon y fferm, Steffan Vets, Llanbedr Pont Steffan, gan ddefnyddio system FECPAK^{G2} Techion UK.

Os mae triniaeth llyngyr yn gwbl effeithiol, dylai cyfrifon wyau ysgarthol leihau gan o leiaf 95%, meddai Eurion Thomas o Techion UK, sy'n gweithio gyda'r ffermwyr ar y prosiect EIP.

Er bod cyfrifon wyau ysgarthol wedi lleihau 100% ymysg lloi a dderbyniodd y driniaeth benzimidazole drwy'r geg, dim ond lleihad o 81% a welwyd ymysg y grŵp a dderbyniodd y driniaeth ivermectin drwy chwistrell.

Dywed Mr Thomas bod y canlyniadau hyd yma yn cyfeirio at fethiant o ran effeithiolrwydd y driniaeth yn hytrach nag ymwrthedd i driniaeth llyngyr.

Mae Irfon Jenkins, sy'n ffermio gyda'i frawd, Eurig, a'u rhieni, Aeron a Glenys, yn cydnabod bod y canfyddiadau'n syndod, yn bennaf oherwydd bod yr heffrod yn parhau i dyfu.

Y llyngyr a oedd yn bresennol yn y samplau cyn y driniaeth oedd y ddwy rywogaeth fwyaf cyffredin, sef ostertagia a cooperia oncophora.

Y rhywogaeth a lwyddodd i oroesi oedd cooperia oncophora, sy'n llai pathogenig ac yn effeithio'n llai ar berfformiad.

Mae hyn yn debygol o fod yn rheswm pam nad oedd cyfraddau twf yr heffrod yn cael eu heffeithio'n rhy sylweddol pan nad oedd y driniaeth llyngyr yn gwbl effeithiol - mae heffrod ar fferm Pentrefelin yn cyflawni cynnydd pwysau byw dyddiol cyfartalog o 0.7kg rhwng genedigaeth a lloia yn 24 mis oed; bydd y prosiect nawr yn archwilio a all rheoli'r llyngyr hyn yn fwy effeithiol wella'r perfformiad yma ymhellach.

Yn ystod yr arbrawf, gwelwyd fod triniaethau llyngyr gwyn a melyn yn gwbl effeithiol.

Dywed Mr Jenkins y bydd yn awr yn llawer mwy dethol wrth ddefnyddio'r grŵp o driniaethau llyngyr clir ac mae'n bosibl y bydd yn cyflwyno rhai newidiadau i bolisi pori'r heffrod, gan ddarparu tir pori glân ar gaeau newydd eu hail-hadu yn y gwanwyn.

Mae hefyd yn fwy rhagweithiol o ran samplu ysgarthion. "Roeddem ni wedi bod yn cynnal profion cyfrif wyau ysgarthol cyn y prosiect hwn, ond nid yn ddigon aml," meddai.

Yn y dyfodol, ni fydd heffrod yn cael eu dosio'n gyffredinol, dim ond pan fydd cyfrifon wyau ysgarthol yn dangos bod angen triniaeth, heblaw am driniaeth gyffredinol ar gyfer llyngyr yr ysgyfaint ar ddiwedd yr haf neu ddechrau'r hydref.

Dywed Mr Jenkins ei bod yn bwysig i ffermwyr llaeth ddysgu gwersi o'r diwydiant defaid a'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran mynd i'r afael ag ymwrthedd anthelminig.

Yn ystod cyfnod y prosiect, bydd gwaith modelu clefydau'n cael ei ddefnyddio i amcangyfrif lefelau halogiad perthynol y borfa ar ddiwedd y tymor pori fel sylfaen ar gyfer cynlluniau pori ar gyfer y flwyddyn olynol, megis caeau y gellir eu pori'n ddiogel, a'r rhai y dylid eu torri i gynhyrchu silwair.